# Cofnodion - Y Pwyllgor Busnes

Lleoliad:

**Swyddfa'r Llywydd, 4ydd llawr - Tŷ Hywel**

Dyddiad: Dydd Llun, 30 Tachwedd 2015

Amser: 15.30 - 17.16

# Preifat

## Yn bresennol

| Categori | Enwau |
|---|---|
| Aelodau'r Pwyllgor: | Y Fonesig Rosemary Butler (Cadeirydd)<br>Paul Davies<br>Jane Hutt<br>Elin Jones<br>Aled Roberts |
| Staff y Pwyllgor: | Aled Elwyn Jones (Clerc) |
| Eraill yn bresennol | Adrian Crompton, Cyfarwyddwr Busnes y Cynulliad<br>Craig Stephenson, Cyfarwyddwr Dros Dro Gwasanaethau'r Comisiwn<br>Siân Wilkins, Pennaeth Gwasanaeth y Siambr a Phwyllgorau<br>Peter Greening, Llywodraeth Cymru<br>Marion Stapleton, Llywodraeth Cymru<br>Christopher Warner, Pennaeth Gwasanaeth y Pwyllgorau Polisi a Deddfwriaeth |

## 1 Ymddiheuriadau a chyhoeddiadau

Cafwyd ymddiheuriadau gan y Dirprwy Lywydd.

## 2 Cofnodion y cyfarfod blaenorol

Nododd y Pwyllgor y cofnodion i'w cyhoeddi.

## 3 Trefn Busnes

### 3.1 Busnes yr Wythnos Hon

Cafodd y Pwyllgor y wybodaeth ddiweddaraf gan y Gweinidog Cyllid a Busnes y Llywodraeth am y newidiadau i Fusnes y Llywodraeth ddydd Mawrth.

Byddai'r Prif Weinidog yn gwneud datganiad am y Metro.

Byddai'r Cyfnod Pleidleisio ddydd Mawrth ar ôl yr eitem olaf o fusnes. Cytunodd y Pwyllgor Busnes y byddai'r Cyfnod Pleidleisio yn cael ei gynnal cyn y Ddadl Fer ddydd Mercher.

### 3.2 Amserlen Busnes y Llywodraeth ar gyfer y tair wythnos nesaf

Nododd y Pwyllgor Busnes Amserlen Busnes y Llywodraeth ar gyfer y tair wythnos nesaf.

### 3.3 Amserlen Busnes y Cynulliad ar gyfer y tair wythnos nesaf

Penderfynodd y Pwyllgor Busnes ar drefn y busnes a chytunodd i amserlennu'r eitemau a ganlyn:

**Dydd Mercher 20 Ionawr 2016**

- Cwestiynau i Gomisiwn y Cynulliad (30 munud)

- Dadl ar adroddiad y Pwyllgor Materion Cyfansoddiadol a Deddfwriaethol ynghylch Deddfu yng Nghymru (60 munud)
- Dadl Cyfnod 3 ar y Bil Lefelau Staff Nyrsio (Cymru) (60 munud)

### 3.4 Craffu ar Fil Cymru drafft

Rhoddodd y Rheolwyr Busnes ystyriaeth i bapur yn nodi dewisiadau posibl ar gyfer craffu ar Fil Cymru drafft yn y Cyfarfod Llawn. Yn eu cyfarfod ar 24 Tachwedd, penderfynodd y Rheolwyr Busnes amserlennu dadl tair awr yn y Cyfarfod Llawn ddydd Mercher 13 Ionawr, ac ailystyried y mater yr wythnos hon i benderfynu ar strwythur y ddadl.

Cytunodd y Pwyllgor y dylid cynnal y ddadl yn y Cyfarfod Llawn ac, yng ngoleuni'r ffaith bod disgwyl i'r Pwyllgor Materion Cyfansoddiadol a Deddfwriaethol gyflwyno adroddiad ar ei waith yn craffu ar Fil Cymru drafft ddydd Gwener 4 Rhagfyr, cytunodd y Rheolwyr Busnes i benderfynu ar strwythur y ddadl ar ôl i'r adroddiad gael ei gyhoeddi.

## 4 Rheolau Sefydlog

### 4.1 Argymhellion y Pwyllgor Materion Cyfansoddiadol a Deddfwriaethol ar Ddeddfu yng Nghymru

Ar 17 Tachwedd, ystyriodd y Rheolwyr Busnes bapur i adolygu'r argymhellion a wnaed gan y Pwyllgor Materion Cyfansoddiadol a Deddfwriaethol yn yr adroddiad ar ei ymchwiliad i ddeddfu yng Nghymru, i'r graddau y maent yn ymwneud â chylch gorchwyl y Pwyllgor Busnes. Cytunwyd y byddent yn ailystyried y mater yn y cyfarfod heddiw ar ôl ymgynghori â'u grwpiau.

Cytunodd y Pwyllgor mewn egwyddor i argymhellion y Pwyllgor Materion Cyfansoddiadol a Deddfwriaethol, gan gynnwys y newidiadau a gynigiwyd i'r Rheolau Sefydlog. Bydd yr Ysgrifenyddiaeth yn drafftio ymateb i'r Pwyllgor Materion Cyfansoddiadol a Deddfwriaethol, ac yn drafftio newidiadau i'r Rheolau Sefydlog perthnasol er mwyn i'r Pwyllgor Busnes eu hystyried yn y flwyddyn newydd, pryd y bydd yn penderfynu a ddylid rhoi'r newidiadau arfaethedig gerbron y Cynulliad ai peidio.

## 5 Y Cyfarfod Llawn

### 5.1 Trefniadau Cyflwyno yn ystod Toriad y Nadolig

Cymeradwyodd y Pwyllgor Busnes y trefniadau cyflwyno arfaethedig ar gyfer toriad y Nadolig.

## 6 Y Pwyllgor Busnes

### 6.1 Adroddiad Etifeddiaeth y Pwyllgor Busnes

Rhoddodd y Rheolwyr Busnes ystyriaeth i'r dystiolaeth a gyflwynwyd mewn ymateb i ymgynghoriad y Pwyllgor ar ei Adroddiad Etifeddiaeth, a gofynnwyd i'r Ysgrifenyddiaeth lunio casgliadau ac argymhellion drafft iddo eu hystyried.